

CRAFFU TREFNIADAU PERFFORMIAD

1. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng Aelodau Cabinet, Penaethiaid Adran a'u rheolwyr gwasanaeth i adolygu sut y mae pethau'n mynd o fewn y gwasanaethau hynny. Mae'r Prif Weithredwr neu Gyfarwyddwr Corfforaethol yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn i herio perfformiad.
2. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal ddwy waith yn ystod y flwyddyn (Gorffennaf a Tachwedd yn arferol) ac unwaith eto ar ôl diwedd y flwyddyn i adolygu'r hyn a gyflawnwyd yn y flwyddyn honno (Ebrill). Bydd y cyfarfodydd yn derbyn adroddiadau ar y pethau sydd yn cael eu mesur o ran cyflawni pwrpas y gwasanaeth a hefyd gwybodaeth am brosiectau i wella perfformiad. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Aelod Cabinet a'r Prif Weithredwr neu Gyfarwyddwr i herio a gofyn cwestiynau i fodloni eu hunain am ansawdd y gwasanaethau hynny.
3. Mae aelodau craffu yn cael gwahoddiad i ddod i'r cyfarfodydd. Diben cynnwys y ddau aelod craffu yn y cyfarfodydd hynny yw:-
 - Cael blas o faint o afael sydd ar faterion perfformiad o fewn yr adrannau unigol
 - Adnabod, os oes angen, unrhyw faterion perfformiad allai deilyngu sylw mewn pwyllgor craffu ffurfiol maes o law
4. Wrth fynychu'r cyfarfodydd hynny, dylai aelodau craffu gofio'r canlynol:-
 - Cyfarfodydd perfformiad yr Aelodau Cabinet yw'r cyfarfodydd hyn ond mae anogaeth i'r craffwyr gymryd rôl llawn yn yr herio a'r cwestiynu .
 - Bydd aelodau yn derbyn gwybodaeth, nid yn unig am berfformiad gwasanaethau mewnol ond hefyd darparwyr allanol. Felly, rhaid parchu cyfrinachedd peth o'r wybodaeth a rennir yn y cyfarfodydd hynny.
5. Dylai'r aelodau craffu:-
 - Deimlo'n rhydd i gyfrannu i'r cyfarfodydd trwy ofyn cwestiynau ond parchu'r ffaith mai cyfarfod yr Aelod Cabinet yw hwn a'i fod yn bennaf yn gyfle i'r Aelod Cabinet wyntyllu materion perfformiad gyda rheolwyr gwasanaeth unigol.
 - Sylwi ar y cyfarfodydd hyn a ffurfio barn ar afael yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth ar berfformiad o fewn y gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt.
 - Ffurfio barn ar y tebygolrwydd bod y gwasanaethau y bu trafod amdanynt yn parhau i fedru gwella a darparu gwasanaethau o ansawdd.
 - Adnabod unrhyw faterion o bryder allai deilyngu sylw mewn pwyllgor craffu maes o law.
6. Cyfrifoldeb yr aelodau fydd adrodd yn ôl ar yr hyn y maent wedi sylwi. Disgwylir i'r aelodau craffu adrodd nôl i'r cyfarfod anffurfiol cyntaf o'r pwyllgor craffu perthnasol yn dilyn y cyfarfodydd hyn. Yn Atodiad A, mae ffurflen syml er mwyn cofnodi hyn oll all fod o gymorth i chi.

